Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Adroddiad Monitro Blynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd i Gomisiynydd y Gymraeg

2024 - 2025

## Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ..... 2
2. **Amcanion yr Uned Iaith Gymraeg** ..... 2
3. **Prif Brosiectau** ..... 2
   - 3.1 Adroddiad Safonau Bwyd ..... 3
   - 3.2 Adroddiad Blynyddol 2022 – 2023 ..... 3
   - 3.3 Bwyd a Chi 2, Cylch 6 ..... 3
   - 3.4 Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2023 ..... 4
4. **Cyfryngau cymdeithasol** ..... 4
5. **Gwefan food.gov** ..... 6
6. **Cysylltu â ni** ..... 6
7. **Ymwybyddiaeth** ..... 7
8. **Gweithdrefnau mewnol** ..... 7
   - 8.1 Hybiau dwyieithog ar y fewnrwyd ..... 8
   - 8.2 Sesiynau cynefino i staff newydd ..... 8
   - 8.3 Negeseuon y Cyfarwyddwr ..... 8
   - 8.4 Iechyd Da – grŵp cymorth staff ar gyfer iechyd a lles ..... 9
9. **Nifer a Chanran y Staff Dwyieithog** ..... 9
   - 9.1 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ..... 10
   - 9.2 Recriwtio ..... 11
10. **Hyfforddiant Iaith** ..... 11
11. **Technoleg Gwybodaeth** ..... 12
12. **Sefydliad Cymeradwy 'Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru'** ..... 12
13. **Cwynion** ..... 12

## 1. Cyflwyniad

Diben yr adroddiad monitro hwn yw rhoi crynodeb o weithgarwch a gwasanaethau dwyieithog yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n ategu ei chydymffurfiaeth â'i Chynllun Iaith Gymraeg. Mae'r adroddiad ym ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein hymdrechion yn yr ASB i gynnig gwasanaethau effeithiol ac ystyrlon i'n defnyddwyr dwyieithog yng Nghymru, gan gynnig darpariaeth sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Tîm yr Uned Iaith Gymraeg fewnol sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth hon, ac mae'r Uned yn gweithio'n galed i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu a'i gwella'n barhaus fel bod ein cynulleidfa ddwyieithog yng Nghymru yn cael y profiad gorau posib wrth ymgysylltu â'r ASB. Ond ni fyddai'r gwaith hwn yn bosib heb gefnogaeth a chydweithrediad parod staff yr ASB yn ei chyfanrwydd, sydd oll yn chwarae eu rhan i sicrhau diwylliant a hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yr ASB yng Nghymru.

## 2. Amcanion yr Uned Iaith Gymraeg

Dyma brif amcanion yr Uned Iaith Gymraeg:

- Darparu a chydlynu gwasanaethau dwyieithog yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg yr ASB
- Rhoi cyngor a chyfarwyddyd i staff yr ASB ar y polisi iaith Gymraeg a'r gofynion o ran cyfieithu
- Cyflwyno gwasanaeth cyfieithu effeithiol ac o ansawdd uchel a rheoli holl gynnwys digidol Cymraeg yr ASB, gan gynnwys ei gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg
- Hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r tu hwnt, a chefnogi staff i ymgymryd â hyfforddiant/gwersi Cymraeg perthnasol
- Monitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg

## 3. Prif Brosiectau 2024-25

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'r Uned Iaith, gan adlewyrchu gweithgarwch a chynhyrchiant yr ASB yn ei chyfanrwydd. Oherwydd llwyth gwaith sylweddol a chynyddol yr Uned Iaith Gymraeg, bu'n rhaid i'r Uned ehangu ei meddalwedd cyfieithu i gynnwys mwy o eiriau er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau'n brydlon ac yn effeithlon. Bu'r Uned yn cydweithio ar amrywiaeth o brosiectau a llifau gwaith uchel eu proffil i sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei rhannu â'r cyhoedd a'n partneriaid mewn awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys y canlynol:

- Creu a lansio gwefan ddwyieithog o'r enw Rhwydwaith Rhannu'r ASB ar gyfer cyfathrebu ag awdurdodau lleol
- Digwyddiad diogelwch bwyd estynedig yn ymwneud â mwstard a physgnau
- Llif gwaith Arolwg 'Bwyd a Chi 2', sef ystadegyn swyddogol sy'n mesur metrigau allweddol o ran diogelwch bwyd
- Cynnal cyfres o archwiliadau o awdurdodau lleol yn ddwyieithog, gan gynnwys cyfieithu'r Adroddiadau a'r ohebiaeth gysylltiedig
- Creu a gweithio gyda thimau mewnol a dylunwyr allanol i greu llyfryn sy'n hyrwyddo gwaith yr ASB

Mae'r holl ohebiaeth a chyhoeddiadau ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru yn cael eu creu'n ddwyieithog a'u hyrwyddo trwy'r cyfryngau perthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu arlwy cynhwysfawr o gynnwys dwyieithog ar-lein ar ein gwefan, food.gov. Rydym yn cyfieithu gohebiaeth o ddydd i ddydd, straeon newyddion, gwybodaeth i ddefnyddwyr, canllawiau a chyngor, ymgyrchoedd cyfathrebu a chynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag amryw adroddiadau, arolygon a bwletinau.

## 3.1 Rhwydwaith Rhannu'r ASB

Mae rhan fawr o'n gwaith wythnosol fel Uned yn ymwneud â chyfathrebu ag awdurdodau lleol. Yn unol â'n blaenoriaethau a'n Cynllun Iaith, mae pob gohebiaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog (ac eithrio rhybuddion am fwyd oherwydd eu natur frys). Ar 17 Medi 2024, lansiwyd system newydd o'r enw Rhwydwaith Rhannu'r ASB neu FSA Local Authority Information Network (FSA LINK) yn Saesneg. Erbyn hyn, dyma brif ddull yr ASB o gyfathrebu'n uniongyrchol ag awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fe'i datblygwyd i ddisodli'r llwyfan Hwyluso Cyfathrebu, sef y system gyfathrebu ddigidol a ddefnyddiwyd gennym i gydweithio ag awdurdodau lleol a chynghorau dosbarth, pan ddaeth y contract i ben ym mis Medi 2024 a phenderfynwyd nad oedd yr hen system bellach yn addas at y diben nac yn effeithiol o ran cost.

Mae Rhwydwaith Rhannu'r ASB yn wefan bwrpasol wedi'i diogelu gan gyfrinair, tebyg i food.gov.uk (a'i chynnal ar yr un system rheoli cynnwys), sy'n hygyrch i bob swyddog bwyd, swyddog bwyd anifeiliaid a swyddog iechyd porthladdoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd â chyfeiriad e-bost diogel gov.uk neu gyfwerth. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth swyddogol sensitif a swyddogol y mae'r ASB yn ei darparu i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau.

Mae Rhwydwaith Rhannu'r ASB yn wefan gwbl dwyieithog lle mae swyddogion yn gallu cael mynediad at wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg. Mae rhyngwyneb y wefan hefyd yn ddwyieithog lle gall unigolion gyfnewid rhwng y ddwy iaith yn hawdd ac yn hygyrch. Mae hyn oll diolch i waith caled yr Uned Iaith Gymraeg a'i pherthnasau â gwahanol dimau ar draws yr ASB.

Dyma oedd prif brosiect yr Uned Iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod dan sylw, ac fe ofynnodd am gyfraniad sylweddol gan ein hadnoddau fel tîm. Bu'r Uned yn rhan o'r bwrdd prosiect o'r cychwyn cyntaf, gan chwarae rôl allweddol wrth sicrhau dwyieithrwydd ar bob cam o'r broses. Yn ogystal â phrofi'r wefan gyda'r datblygwyr, gwnaethom awgrymu newidiadau ymarferol ac ieithyddol i wella profiad y defnyddiwr. Buom hefyd yn gyfrifol am fudo bron i 2,000 o adnoddau a gohebiaeth hanesyddol i'r system newydd ar ffurf HTML, yn ogystal â llwytho'r holl gynnwys newydd. Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg ac yn bodloni gofynion hygyrchedd, gan ddarparu gwasanaeth cynhwysol ac effeithiol.

Ar ben y gwaith prosiect hwn, rydym wedi cynhyrchu a hyrwyddo nifer o adroddiadau corfforaethol dwyieithog eleni, gan gynnwys:

## 3.2 Adroddiad Blynyddol ar Safonau Bwyd

Ar 8 Hydref 2024, cyhoeddodd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) Ein Bwyd: Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU. Hwn oedd y trydydd o gyfres o adroddiadau a fydd yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i dryloywder, ac er mwyn sicrhau bod seneddwyr, partneriaid masnachu a defnyddwyr gartref a thramor yn ymwybodol o'r newidiadau i'n system fwyd a'r heriau sy'n ei hwynebu. Roedd yn hollbwysig sicrhau bod adroddiad mor uchel ei broffil â chynulleidfa mor eang ar gael yn Gymraeg, a bu'r Uned Iaith yn rhan o'r prosiect sylweddol hwn, adroddiad mwyaf yr Uned, o'r cychwyn cyntaf.

## 3.3 Adroddiad Bwyd a Chi 2, Cylch 8 a 9

Bwyd a Chi 2 yw ein harolwg blaenllaw sy'n mesur gwybodaeth, agweddau ac ymddygiadau a nodwyd o ran diogelwch bwyd ac ymddygiadau eraill sy'n ymwneud â bwyd. Rydym yn defnyddio contractiwr allanol, Ipsos, i gynnal arolygon dwyieithog ddwywaith y flwyddyn ymhlith oedolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fel y'u cofnodir gan y defnyddwyr eu hunain. Mae'r ASB yn paratoi adroddiad dwyieithog ar ganfyddiadau'r cylchoedd unigol, ac eleni, gwnaethom gyhoeddi adroddiadau Cylch 8 a Chylch 9. Roedd yn flwyddyn prysur o ran Bwyd a Chi 2 a chyhoeddwyd hefyd yr adroddiad Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB), Bwyd a Chi 2: Cylch 8. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau arolwg Bwyd a Chi 2: Cylch 8 o ran y CSHB, gan gynnwys ymwybyddiaeth, adnabyddiaeth a defnydd yr ymatebwyr o'r Cynllun, dealltwriaeth o'r Cynllun a'i effaith ar ymddygiadau, ac agweddau tuag at y Cynllun. Yn ogystal â chyfieithu'r adroddiad, bu'r Uned Iaith unwaith eto eleni yn gweithio gydag Ipsos i greu arolygon post ac arolygon ar-lein dwyieithog, ynghyd â'r holl ohebiaeth gysylltiedig.

Mae'r broses gyfan yn gwbl ddwyieithog, a chaiff unrhyw ymatebion a ddaw i law eu cyfieithu i'r Saesneg a'u cynnwys yn y data. Mae'r arolwg yn cael ei anfon at fwy na 4,000 o gartrefi ledled y DU, ac mae pob aelwyd yng Nghymru yn derbyn yr holl ddogfennaeth gysylltiedig yn ddwyieithog, sy'n gyfle da i rannu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yr ASB.

## 3.4 Llyfryn yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yn ystod y cyfnod dan sylw, roedd yr Uned yn chwarae rôl ganolog wrth gyfieithu a diweddaru llyfryn yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r llyfryn hwn yn nodi pwy ydyn ni, ein rôl, a sut rydym yn cyflawni ein gwaith yn yr ASB. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ein hanes, cerrig milltir pwysig, ein cyfrifoldebau a'r cyd-destun rydym yn gweithredu ynddo. Mae'n ddogfen ddefnyddiol i'w rhannu gyda'r cyhoedd a sefydliadau eraill, yn enwedig mewn digwyddiadau amrywiol, gan ei bod yn rhoi blas ar waith yr ASB. Gwnaethom argraffu copïau i'w dosbarthu mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod, gan amlygu ein hymrwymiad i'r Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy.

## 3.5 Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2024

Yn 2017, cyflwynodd y llywodraeth ddeddfwriaeth arloesol a oedd yn ei gwneud yn ofyniad statudol i bob sefydliad â 250 neu fwy o weithwyr adrodd yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn eu sefydliad. Mae'r ASB yn cyhoeddi ei hadroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn ddwyieithog ar wefan GOV.UK.

### 3.6 Porth awdurdodi cynhyrchion rheoleiddiedig

Yn ystod y cyfnod dan sylw, fe wnaeth yr Uned Iaith Gymraeg chwarae rhan allweddol wrth i'r ASB gyflwyno newidiadau i'r broses awdurdodi cynhyrchion i'w rhoi ar y farchnad. Roedd hwn yn brosiect sylweddol i'r ASB a chyfieithwyd yr holl ganllawiau yn ogystal â'r llwyfan i gyflwyno ceisiadau, gan roi opsiwn i fusnesau weithredu drwy'r Gymraeg.

# 4. Cyfryngau cymdeithasol

Yr Uned Iaith sy'n rheoli cyfrifon a chynnwys Cymraeg yr ASB yng Nghymru. Rydym yn rhannu negeseuon, newyddion, adnoddau a gwybodaeth bwysig â'n dilynwyr trwy ein cyfrifon:

- **Facebook**: Asiantaeth Safonau Bwyd – https://www.facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd (Cymraeg)[1]
- **Instagram**: @foodgov – https://www.instagram.com/foodgov/ (Dwyieithog)
- **LinkedIn**: @Food Standards Agency – https://www.linkedin.com/company/food-standards-agency/ (Dwyieithog)
- **X**: @FSACymru – https://x.com/FSACymru (Cymraeg)


[1] Sylwer bod y cyfrif hwn bellach yn gyfrif dwyieithog. Byddwn ni'n trafod ein gwaith i lansio sianeli cyfryngau cymdeithasol dwyieithog yn yr Adroddiad Monitro ar gyfer 2025-2026.

Mae'r Tîm Cyfathrebu canolog yn rhannu eu cynllun cyfathrebu â ni bob pythefnos, ac awn ni ati wedyn yng Nghymru i ddylunio cynnwys sy'n ategu'r gweithgarwch corfforaethol, gan deilwra'r cynnwys i weddu i'n cynulleidfa Gymraeg.


Rydym yn rhannu cynnwys yn rheolaidd, gan sicrhau bod y negeseuon Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r rhai ar y cyfrifon Saesneg cyfatebol, a chreu adnoddau o'r un safon broffesiynol er mwyn cynnal yr un safon yn y ddwy iaith.

Rydym yn defnyddio ein cyfrifon i gefnogi ymgyrchoedd a gweithgarwch polisi yr ASB ar wahanol faterion yn ymwneud â bwyd, ac er mwyn rhannu gwybodaeth hollbwysig â'r cyhoedd, rhanddeiliaid a phartneriaid, gan gynnwys rhybuddion alergedd a hysbysiadau galw a thynnu cynnyrch yn ôl er mwyn diogelu defnyddwyr. Rydym hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i greu a rhannu cynnwys sy'n benodol i Gymru, er mwyn sicrhau bod ein cyfrifon yn adlewyrchu llais a naws benodol yr ASB yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n hoffi tudalen Facebook Cymraeg yr ASB.




Mae hyn o ganlyniad i ymgyrchoedd amrywiol yr ASB, ac yn arbennig ymgyrch y Nadolig. Roedd 635, 317 o ymweliadau â'n tudalen yn ystod y cyfnod dan sylw. Fel y gwelwch o'r graff, roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn digwydd yn ystod mis Rhagfyr ac yn ystod ein [hymgyrch diogelwch bwyd dros y Nadolig](). Mae hyn yn cynnwys ymweliadau organig, a hefyd ymweliadau â thâl.




Yn sicr, mae wedi bod yn gyfnod prysur ar ein cyfryngau cymdeithasol. Dyma nodi rhai o'r uchafbwyntiau:

- **Defnyddia dy Gymraeg –** gwnaethom greu fideo i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yr ASB ac annog y cyhoedd i ddefnyddio Cymraeg gyda ni
- **Ymgyrch diogelwch bwyd i fyfyrwyr –** lansiwyd ymgyrch i hyrwyddo hylendid bwyd ac arferion da ymhlith myfyrwyr sy'n debygol o fod yn byw oddi cartref a choginio dros eu hunain am y tro cyntaf
- **Ymgyrch diogelwch bwyd dros y Nadolig –** dyma ymgyrch flynyddol yr ASB sy'n hyrwyddo arferion hylendid bwyd da dros y Nadolig fel coginio twrci'n gywir, storio bwyd yn ddiogel a gwirio dyddiadau ar fwyd
- **Ymwybyddiaeth alergenau** – ymgyrch yn tynnu at bwysigrwydd rheoli alergenau mewn busnesau bwyd.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn arf defnyddiol i gyrraedd cynulleidfa Gymreig a Chymraeg, gan sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol yn eu dewis iaith.

## 5. Gwefan food.gov


Gwefan gynhwysfawr yr ASB, food.gov, yw ein prif ddull o rannu ein gwybodaeth a'n canllawiau hollbwysig ar ddiogelwch a safonau bwyd, ac rydym yn falch iawn bod y wefan yn ddwyieithog i raddau helaeth iawn. Mae strwythur y wefan yn gyson ag arferion gorau yn y maes a gellir toglo o un iaith i'r llall yn hawdd. Gall defnyddwyr weld yn glir pa wybodaeth sydd ar gael ym mha iaith.

Mae swyddogion yr Uned Iaith hefyd yn olygyddion gwe, ac rydym yn defnyddio rota ddyddiol i fonitro a diweddaru'r system rheoli cynnwys. Bob wythnos, bydd y tîm digidol a chyfathrebu yn rhannu cynllun gwaith â'r Uned Iaith i ddangos beth fydd yn cael ei ychwanegu neu ei addasu ar y wefan a phryd. Gallwn fynd ati'n rhagweithiol wedyn i gyfieithu unrhyw gynnwys a fydd yn cael ei uwchlwytho. Drwy hyn, gallwn sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o ran dwyieithrwydd a bod cynnwys Cymraeg yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r

cynnwys Saesneg cyfatebol. Mae ein perthynas waith effeithiol gyda chydweithwyr yn y tîm digidol a sianeli, a'r prosesau cynllunio sydd ar waith, yn golygu bod uwchlwytho'n ddwyieithog yn rhan annatod o'r broses llunio cynnwys ar gyfer y wefan. Mae gwaith y wefan yn rhan fawr o waith yr Uned erbyn hyn, ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod taith y defnyddiwr gystal yn y ddwy iaith.

Dylid nodi nad yw rhywfaint o gynnwys mwy technegol a gwyddonol y wefan yn cael ei gyfieithu am ei fod wedi'i eithrio yn ôl ein blaenoriaethau cyfieithu a amlinellir yn y Cynllun Iaith. At ei gilydd, bydd y cynnwys uniaith Saesneg o dan y faner 'Gwyddoniaeth a Thystiolaeth', ond hyd yn oed yn yr adran honno, rydym wedi sicrhau bod yr haenau uchaf ar gael yn Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, bu 12,451 o ymwelwyr â'r wefan Gymraeg, a 26,347 o ymweliadau â thudalennau. Nid oes modd egluro'r cynnydd sydyn mewn ymweliadau yn ystod mis Chwefror.




Yn ystod yr un cyfnod, roedd yr Uned yn cyhoeddi nifer fawr o ganllawiau newydd i ddefnyddwyr er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i ddarparu gwasanaeth digidol dwyieithog o'r radd flaenaf. Dyma dynnu sylw at rai ohonynt:

- Bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth
- Diogelwch bwyd barbeciw
- Diogelwch bwyd yn ystod tywydd poeth
- Arferion gorau – Gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw: Darparu gwybodaeth ysgrifenedig am alergenau

## 6. Cysylltu â ni

Erbyn hyn, bydd defnyddwyr yn cysylltu â'r ASB drwy'r wefan yn bennaf, ac mae modd gwneud hynny yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio'r dudalen cysylltu. Ceir adran ar wahân hefyd os bydd aelod o'r cyhoedd eisiau rhoi gwybod i'r ASB am broblem gyda bwyd, gydag opsiynau dwyieithog cynhwysfawr sy'n ei gwneud yn hawdd i ddefnyddwyr rannu gwybodaeth â ni yn eu dewis iaith.

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno ffonio'r ASB, mae gennym un llinell gymorth ganolog (0330 332 7149) sydd â neges ddwyieithog yn cynnig dewis iaith i'r sawl sy'n ffonio. Nid oes rhif ffôn uniongyrchol ar gyfer yr ASB yng Nghymru mwyach, ond os daw galwad gan siaradwr Cymraeg ar y llinell ganolog, caiff yr alwad ei chyfeirio at swyddog dwyieithog yn y tîm Cymorth Busnes a fydd yn ateb gyda chyfarchiad dwyieithog. Os bydd defnyddwyr eisiau trafod yn Gymraeg, gallant wneud hynny naill ai gyda'r swyddog dan sylw, neu drwy gael eu cyfeirio at siaradwr Cymraeg yn y tîm perthnasol.

Wrth barhau i recriwtio yn unol â'n Strategaeth Sgiliau Cymraeg, rydym wedi llwyddo i sicrhau bod gennym siaradwyr Cymraeg rhugl yn y rhan fwyaf o dimau'r ASB yng Nghymru. Mae gennym hefyd siaradwyr Cymraeg ymhlith yr uwch-dîm rheoli, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cymru. Mae hyn yn golygu bod modd cyfeirio'r sawl sy'n ffonio at swyddog neu uwch-aelod o staff Cymraeg ei iaith sydd ag arbenigedd polisi ym mron pob un o feysydd polisi'r ASB. Y ddau dîm sydd heb siaradwr Cymraeg ar hyn o bryd yw'r tîm Polisi Safonau a'r tîm Diogelu'r Cyhoedd. Pan ddaw'n bryd recriwtio i swyddi gwag yn y timau hyn, bydd gofynion ieithyddol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â gofynion eraill y swyddi.

## 7. Ymwybyddiaeth

Yn ogystal â'r sesiynau cynefino arferol i'r staff, gwnaethom gynnal nifer o sesiynau ymwybyddiaeth mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn adrodd.

- Gwnaeth Sioned Fidler, arweinydd CWLBS sef (Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes), gyfweliad ar ddiogelwch bwyd yn y cartref ar Sioe Radio Bore Cothi ym mis Ebrill 2024. Arweiniodd hyn at ymchwydd yn nifer y bobl oedd yn chwilio am gyngor ar y wefan am ailgynhesu reis.

- Cynhaliwyd Cyfarfod Bwrdd yr ASB yn Llandudno ym mis Mehefin 2024. Cyfieithwyd yr holl ddeunydd perthnasol cysylltiedig i'r Gymraeg, gan gryfhau ein hunaniaeth dwyieithog fel sefydliad.

- Yn ogystal â chymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi wedi'u trefnu gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru a digwyddiadau amrywiol eraill, aethom hefyd i ddigwyddiad Cymdeithas Rhyngwladol y Comisiynwyr Iaith. Roedd yn arbennig o ddiddorol gwrando ar y sesiynau panel ynglŷn â sut mae Safonau'n cael eu cymhwyso yn y gweithle er mwyn ein helpu i baratoi at y dyfodol. Roedd y digwyddiad yn ffordd wych o ryngweithio a gweld sut mae ein ymrwymiad i'r iaith yn chwarae rhan allweddol wrth ddiogelu ei dyfodol.

- Yn unol â'r arfer, roedd gennym stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Dros yr 8 diwrnod, croesawyd cyfanswm o 3,860 o ymwelwyr i'r stondin, ein Eisteddfod fwyaf llwyddiannus hyd yma. Mae'n hollbwysig ein bod yn darparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg ac yn rhoi cyfle iddynt

gyfathrebu â ni, gan rannu cyngor a gwybodaeth werthfawr, a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n gwaith, a chryfhau'r berthynas rhwng y cyhoedd a'r ASB.

- Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd diwrnod hyfforddi i holl staff yr ASB yng Nghymru. Fel rhan o'r diwrnod, gwnaeth yr Uned Gymraeg drefnu sesiwn dysgu Cymraeg trwy wahodd Annest John a Sali Hopkins o Brifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd yn sesiwn ryngweithiol drwy gyfrwng y Gymraeg i helpu'r rhai sydd eisiau dysgu o'r newydd neu wella eu sgiliau. Mae'r sesiynau hyn yn helpu staff i feithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn eu hatgoffa o'r rhwymedigaethau ieithyddol.

- Hefyd ym mis Tachwedd, cawsom wahoddiad i gyfarfody Rhwydwaith Rheoleiddwyr (Regulators Network) lle gwnaethom siarad am ein gwaith yn yr ASB, sut rydym yn cydymffurfio â gofynion a disgwyliadau Comisiynydd y Gymraeg a'r prosesau rydym wedi'u rhoi ar waith. Roedd y cyfarfod yn gyfle gwych i rannu arferion da a thrafod â rheoleiddwyr eraill yn y maes am bwysigrwydd y Gymraeg.

- Dros y Nadolig, gwnaeth Sian Bowsley, Cyfarwyddwr Cymru hefyd ymddangos ar sioe Bore Cothi, ac aeth Sioned ar sioe S4C 'Prynhawn da' i rannu cyngor ar sut i baratoi twrci yn ddiogel, storio bwyd yn gywir, deall y dyddiadau 'defnyddio erbyn' ac 'ar ei orau cyn', a sut i leihau gwastraff bwyd. Mae hyn yn ffordd wych o ymgysylltu â'n cynulleidfa Gymraeg i sicrhau eu bod yn cael negeseuon hollbwysig ar ddiogelwch bwyd yn eu dewis iaith.

## 8. Gweithdrefnau Mewnol

Mae'r ASB yng Nghymru yn parhau i weithredu nifer o fesurau corfforaethol i wella ein diwylliant, ein hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog a'n darpariaeth Gymraeg yn fewnol.

### 8.1 Hybiau dwyieithog ar y fewnrwyd

Mae gennym hybiau ar ein mewnrwyd, sef 'gwefannau' bach ar gyfer timau unigol yr ASB. Gall staff droi at yr hybiau i gael gwybodaeth a newyddion am y tîm, gwybod pwy sy'n rhan o'r tîm hwnnw, sut i gysylltu, cylch gwaith y tîm ac unrhyw adnoddau defnyddiol. Mae gan dîm yr ASB yng Nghymru ei hyb ei hun sy'n ddwyieithog, a hynny er mwyn parchu hunaniaeth y tîm, normaleiddio elfennau o weithio dwyieithog yn fewnol a rhoi dewis iaith i'r staff. Fel un o dimau corfforaethol allweddol yr ASB sy'n darparu gwasanaethau i staff ar draws yr ASB, mae gan yr Uned Iaith ei hyb ei hun. Rydym wedi manteisio ar y cyfle hwn i dynnu holl adnoddau'r Uned Iaith at ei gilydd mewn un man a'u hyrwyddo i'r staff. Mae'r hyb dwyieithog yn esbonio sut i gysylltu â'r Uned i wneud cais cyfieithu ac yn

amlinellu ein safonau gwasanaeth. Mae'n cynnwys y Cynllun Iaith, y Cynllun Gweithredu cysylltiedig, y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, pecyn Cysgliad, ymadroddion dwyieithog defnyddiol gan gynnwys llofnodion e-byst a negeseuon allan o'r swyddfa, a therminoleg ddefnyddiol arall. Rydym hefyd wedi cynnwys fideo byr yn cyflwyno'r tîm, ein gwaith a'r rhesymau dros ddarparu gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru. Ceir adran hefyd sy'n amlinellu'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg a gynigir gan yr ASB, ac adran sy'n egluro rôl y Comisiynydd Iaith a sut y mae'n rheoleiddio ein cydymffurfiaeth â'n Cynllun Iaith statudol.

## 8.2 Sesiynau cynefino i staff newydd

Mae pob aelod newydd o staff sy'n ymuno â'r ASB yn cael diwrnod cynefino ar ei ddiwrnod cyntaf yn y swydd. Mae'r sesiwn gynefino'n cynnwys cyflwyniad i waith yr Uned Iaith a'r Cynllun Iaith, gan sicrhau bod pob aelod newydd o staff ledled y corff yn ymwybodol o'r gofyniad i weithio'n ddwyieithog yng Nghymru. Erbyn hyn, cânt eu cyfeirio hefyd at hyb newydd yr Uned Iaith, er mwyn iddynt weld yr holl wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael iddynt mewn un man.

Pan fydd aelodau newydd o staff yn ymuno â'r ASB yng Nghymru, mae'r Uned Iaith yn anfon neges i'w croesawu sy'n egluro pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud. Rydym yn atodi fideo'r Uned ac yn amlinellu ein gwaith yn fras. Rydym hefyd yn trefnu cyfarfod Teams er mwyn cael sgwrs â phob un. Gan adeiladu ar yr wybodaeth a gawsant yn y diwrnod cynefino cyffredinol, maent yn cael cyflwyniad manylach ar swyddogaethau a gwasanaethau'r Uned Iaith a sut i wneud cais amdanynt. Byddwn yn siarad am eu rolau ac yn egluro pa gamau y bydd angen iddynt eu cymryd er mwyn cyflawni eu dyletswyddau personol fel rhan o'r Cynllun. Rydym yn eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu'r iaith, er enghraifft trwy Cymraeg Gwaith, ac yn cynnig ein cefnogaeth yn hyn o beth. Ond rydym hefyd yn pwysleisio bod agwedd gadarnhaol cyn bwysiced â'r gallu i siarad yr iaith.

## 8.3 Negeseuon y Cyfarwyddwr

Daeth yr ASB yng Nghymru yn rhan o gyfarwyddiaeth UKIA, dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr, Anjali Juneja. Mae Anjali yn anfon neges at holl staff y Gyfarwyddiaeth bob pythefnos. O'r adeg y daeth yr ASB yng Nghymru yn rhan o UKIA, gofynnodd Anjali i'r Uned gyfieithu ei negeseuon fel eu bod yn cael eu rhannu'n ddwyieithog. Mae agendâu cyfarfodydd staff y Gyfarwyddiaeth a gynhelir ar-lein ac wyneb yn wyneb hefyd yn cael eu rhannu'n ddwyieithog. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymwybyddiaeth o hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yr ASB yng Nghymru, a'r parch tuag ati ym mhob rhan o'r ASB ac ar bob lefel.

## 8.4 Connect Cymru – grŵp cymorth a lles staff

Yn ystod y flwyddyn hon, sefydlwyd y grŵp staff 'Connect Cymru', gan ddisodli'r hen grŵp 'Iechyd Da'. Mae'r grŵp yn gyfrifol am gydlynu digwyddiadau i staff, cynhyrchu cylchlythyr, cefnogi staff a llawer mwy. Mae siaradwyr Cymraeg yn rhan o'r grŵp ac maent yn aml yn hyrwyddo hanesion, traddodiadau neu faterion diwylliannol Cymreig a Chymraeg. Er bod y cyhoeddiadau'n fewnol, mae bron popeth yn cael ei rannu'n ddwyieithog, gan dynnu sylw at hunaniaeth Gymraeg gref yr ASB yng Nghymru.

Mae un o bencampwyr iechyd meddwl yr ASB yng Nghymru yn ddwyieithog, a gall gynnig cymorth gwerthfawr yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn hanfodol gyda gwasanaethau cymorth fel iechyd meddwl, oherwydd gallai peidio â chynnig dewis iaith fod yn niweidiol i bobl sydd mewn cyflwr bregus wrth geisio cymorth.


## 9. Nifer a Chanran y Staff Dwyieithog

Mae nifer y swyddi yn yr ASB yng Nghymru wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf i adlewyrchu cyfrifoldebau ehangach yr ASB yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig ym maes cynhyrchion rheoleiddiedig. Erbyn hyn, rydym yn cyflogi 66 aelod o staff. Mae diwylliant gweithio'r ASB yn golygu ein bod yn cynnig ffyrdd hyblyg o weithio (gan gynnwys y dewis i weithio'n gyfan gwbl o gartref) ac offer digidol sy'n hwyluso gweithio o bell. Mae nifer sylweddol o staff yr ASB yn gweithio gartref erbyn hyn, ac o'r herwydd rydym yn recriwtio o ardal ddaearyddol ehangach nag erioed ar gyfer swyddi yng Nghymru. Bellach, mae nifer o staff yr ASB yng Nghymru yn gweithio yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Er gwaetha'r cynnydd mewn niferoedd a'r dosbarthiad daearyddol, mae 22% o staff yr ASB yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg rhugl, gan gynnwys aelodau o'r Uwch-dîm Rheoli. Mae gan 60% o'r staff rywfaint o allu Cymraeg (Sylfaenol – Canolig – Rhugl) a dim ond 12 aelod o staff sy'n nodi nad oes ganddynt unrhyw Gymraeg o gwbl. Gweler y graff isod i weld dadansoddiad manwl. Mae ein Strategaeth Sgiliau Cymraeg (a ddisgrifir yn fanylach yn 9.1 isod) yn sicrhau y caiff swyddogion Cymraeg eu hiaith eu penodi i swyddi y nodir bod y Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn cynllunio gallu Cymraeg ar gyfer pob tîm a bod ein harferion recriwtio yng Nghymru yn ein helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth.

Mae'r ASB yng Nghymru yn rhoi pwyslais ar agwedd staff at y Gymraeg, yn ogystal â'u gallu. Mae gweithgarwch codi ymwybyddiaeth parhaus yr Uned yn sicrhau bod ymwybyddiaeth yn uchel iawn ymhlith staff ac mae gweithio dwyieithog yn rhan annatod o ddiwylliant a hunaniaeth gorfforaethol yr ASB yng Nghymru.

Roedd 66 o swyddi yn yr ASB yng Nghymru yn ystod 2023-24. Gofynnwyd i staff hunanasesu eu lefel o allu Cymraeg trwy holiadur e-bost. Mae'r graff isod yn nodi asesiad y gweithwyr eu hunain o'u gallu Cymraeg:




Mae diffiniadau'r lefelau wedi'u seilio ar lefelau Dysgu Cymraeg.

## 9.1 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Mae Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ar waith yn yr ASB, sy'n amlinellu sut y byddwn yn cynnal gweithlu dwyieithog digonol er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg effeithiol yng Nghymru. Mae'r ASB wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth Cymraeg effeithiol yng Nghymru, yn unol â'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae darparu gwasanaeth ystyrlon yng Nghymru, nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan ddarparu gwasanaethau cyfartal yn y ddwy iaith, yn gofyn am weithlu medrus a all weithio'n ddwyieithog. Er mwyn cynnal y gweithlu dwyieithog medrus hwn, mae'n rhaid i ni ddenu a chadw staff sy'n siarad Cymraeg ar draws holl dimau a phroffesiynau'r ASB yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae angen rhoi cyfle i staff cyfredol ymgymryd â hyfforddiant i ddatblygu neu wella eu sgiliau Cymraeg.

Bydd ein Strategaeth Sgiliau Cymraeg yn ein helpu i reoli a chynllunio sgiliau iaith staff. Mae'n cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:

- Gwella'r gwasanaethau dwyieithog a ddarparwn
- Pennu lefel sgiliau Cymraeg (darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad) sy'n ofynnol ar gyfer timau a swyddi ledled yr ASB yng Nghymru
- Recriwtio unigolion sydd â'r lefel briodol o sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd sy'n cael ei hysbysebu
- Hyrwyddo a dathlu gweithle dwyieithog, yn fewnol ac yn allanol, gyda'r bwriad o ddenu a chadw staff dwyieithog
- Cynyddu'r cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a magu eu hyder

Ein nod tymor hwy yw sicrhau bod ein gwasanaeth Cymraeg yn bodloni'r gofynion a nodir ym Mesur y Gymraeg 2011, oherwydd gallent fod yn uniongyrchol berthnasol i'r ASB yn y dyfodol. Dylai hefyd gyfrannu at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac anrhydeddu ymrwymiad yr ASB i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

## 9.2 Recriwtio

Yn unol â darpariaethau ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, hysbysebir pob swydd wag yr **ASB yng Nghymru** naill ai fel 'Cymraeg – dymunol' neu 'Cymraeg – hanfodol', fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod y gallu i siarad Cymraeg ym mhob tîm.

Penderfynir ar y gofyniad hwn fesul achos mewn cysylltiad â Chyfarwyddwr Cymru a'r Uned Iaith, ac yn unol â meysydd lle bo angen penodol am siaradwyr Cymraeg (megis yr adran Gyfathrebu neu o fewn y tîm Cymorth Busnes). Pan fo'r meini prawf hyn wedi'u cynnwys mewn hysbysebion swyddi, esbonnir pam y gwnaed hynny (er enghraifft, i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar brif linell ffôn yr ASB yng Nghymru), er mwyn sicrhau nad yw'r rhain yn mynd yn feini prawf 'tic yn y bocs' cyffredinol.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd dwy swydd eu hysbysebu fel swyddi 'Cymraeg – hanfodol'. Roedd hyn yn gynnwys 'Cyfieithydd a Swyddog y Gymraeg – cyfnod mamolaeth' a 'Rheolwr Cyfathrebu'. Cafodd y swyddi eu llenwi'n llwyddiannus gyda siaradwyr Cymraeg. Hysbysebwyd 8 o swyddi eraill yng Nghymru fel 'Cymraeg – dymunol', gan gynnwys cyfiawnhad dros pam y byddai cael siaradwr Cymraeg yn fuddiol yn y rôl honno.

Un o'r swyddi 'Cymraeg – dymunol' oedd swydd Cyfarwyddwr Cymru. Mae'r ymgeisydd llwyddiannus, Sian Bowsley, yn siarad Cymraeg, ac yn aml yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol mewn cyfarfodydd ffurfiol ond hefyd wrth sgwrsio â staff, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chlywed ar bob lefel yn yr ASB. Mae hyn yn anfon neges bwerus ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae'n sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn weledol ar y lefel arweinyddiaeth uchaf, gan ddangos parch diwylliannol ac atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd. Mae hyn, yn ei dro, yn rhaeadru drwy staff, gan annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a gwreiddio ei phwysigrwydd mewn arferion bob dydd. Mae hefyd yn cryfhau ymddiriedaeth gyda chymunedau sy'n siarad Cymraeg, gan ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eu hiaith a'u hawliau, ac yn gwella ein henw da fel sefydliad cynhwysol.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, cynhaliwyd ymgyrch recriwtio ar gyfer Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC). Hysbysebwyd un o'r penodiadau fel 'Cymraeg – hanfodol'. Erbyn hyn, mae tri o aelodau WFAC yn siarad Cymraeg, sef y nifer uchaf erioed. Unwaith eto, mae hyn yn sicrhau bod lleisiau Cymraeg yn cael eu clywed a'u hystyried mewn perthynas â phob agwedd ar waith yr ASB.

## 10. Hyfforddiant Iaith

Mae holl aelodau staff swyddfa Cymru wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith sy'n eu helpu i ddeall mwy am y Gymraeg, ei hanes a'i statws yng Nghymru, yn ogystal â dysgu am yr hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith Gymraeg statudol yr ASB. Mae gan yr Uned Iaith 'hyb' ar y fewnrwyd sy'n atgyfnerthu'r negeseuon hyn. Mae gan yr Uned Iaith hefyd grŵp ar Microsoft Engage, sef platfform rhwydweithio cymdeithasol mewnol, ac rydym yn rhannu newyddion a deunydd perthnasol am y Gymraeg ar y grŵp hwn. Rydym hefyd yn weithgar yn ein grwpiau Microsoft Teams yn tynnu sylw at ddigwyddiadau/dathliadau perthnasol.

Caiff staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, neu fagu eu hyder/defnydd o'r iaith, eu cyfeirio at yr adnoddau perthnasol (er enghraifft Cymraeg Gwaith, Say Something in Welsh) gan yr Uned Iaith. Mae'r ASB hefyd wedi cofrestru ar gyfer y modiwl Cymraeg Gwaith ar-lein (Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol) ac mae'n annog staff yn y swyddfa yng Nghymru, a'r tu hwnt, i ymgymryd â'r modiwl i ddysgu Cymraeg sylfaenol i'w defnyddio yn y gweithle. Mae'r ASB yn croesawu'n frwd cynnwys Dysgu Cymraeg ar lwyfan Civil Service Learning. Hysbyswyd y deunyddiau hyn yn fewnol, gan annog staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant.

At hynny, mae'r Uned Iaith bob amser ar gael i ddarparu cefnogaeth fentora, boed wyneb yn wyneb, mewn digwyddiadau i staff, neu drwy gyfrwng arall (negeseuon gwib, cyfryngau cymdeithasol) er mwyn helpu staff i ddatblygu yn y maes hwn.

## 11. Technoleg Gwybodaeth

Mae gan bob aelod o staff yr ASB sy'n dymuno gweithio'n ddwyieithog feddalwedd Cysgliad ar eu dyfeisiau. Mae gan holl staff yr ASB yng Nghymru lofnod a negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog ar eu cyfrifon e-bost, wedi'u cyfieithu gan yr Uned Iaith. Anogir staff Cymraeg eu hiaith i ddrafftio testun a gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae'r Uned Iaith wrth law bob amser i wirio'r gwaith hwn yn ôl y gofyn.

Mae'r Uned Iaith yn parhau i ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu Phrase (Memsource gynt) i sicrhau cysondeb a chywirdeb ein cyfieithiadau. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu cronfa derminoleg fewnol sy'n ymwneud yn benodol â'n meysydd gwaith, a chaiff ei safoni mewn cydweithrediad â Chanolfan Bedwyr a'i chyhoeddi hefyd ar y Porth Termau.

Mae'r Uned Iaith yn rheoli holl gyfrifon a chynnwys cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yr ASB fel y nodir yn adran 4.

Mae swyddogion yr Uned Iaith i gyd wedi cael eu hyfforddi i fod yn olygyddion y wefan, ac rydym yn uwchlwytho holl gynnwys Cymraeg yr ASB i wefan food.gov yn ôl yr angen. Gall yr Uned Iaith hefyd adeiladu ac addasu strwythur y wefan yn ôl yr angen i gefnogi'r cynnwys Cymraeg, sy'n cynyddu drwy'r amser. Disgrifir hyn yn fanylach yn adran 5.

Mae gwybodaeth am yr Uned Iaith a pholisi iaith Gymraeg yr ASB ar gael yn rhwydd yn fewnol ar hyb yr Uned, ac yn allanol ar ein gwefan gyhoeddus.

## 12. Sefydliad Cymeradwy 'Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru'

Yr ASB oedd un o'r cyrff cyntaf i gael ei nodi'n sefydliad cymeradwy gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Mae'r gydnabyddiaeth barhaus hon yn dyst i'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r ansawdd uchaf i'r cyhoedd yng Nghymru a safon a chymhwysedd ein cyfieithwyr. Mae'r Gymdeithas yn cynnal

cyrsiau hyfforddi, sgyrsiau rhithwir dros ginio a gweithdai cyfieithu'n rheolaidd, a manteisiodd aelodau staff yr Uned ar nifer o'r cyfleoedd hyn eleni.

## 13. Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gŵynion am ddarpariaeth Gymraeg yr ASB yn ystod 2024-25.

Derbyniwyd cais am wybodaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â holl wariant yr ASB, ym mhob agwedd ar ei gweithrediadau a'i chwmpas, ar gyfieithu, dehongli a gwasanaethau iaith ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2020/21, 2021/22, 2022/23.